# Canllawiau Gwrthdaro Buddiannau Staff y Ganolfan CBAC

**Mae'r canllawiau hyn yn ymwneud â'r gofynion a nodir dan 5.3(j),**

Rheoliadau Cyffredinol y CGC

| Gwrthdaro Buddiannau | | Camau i'w cymryd | | |
|---|---|---|---|---|
| Staff | Senario | Cofnodi | Datgan | Manylion |
| Holl Staff y Ganolfan | Unrhyw aelodau o staff y ganolfan sy'n sefyll cymwysterau yn eu canolfan eu hunain gan gynnwys cydrannau neu unedau a asesir yn fewnol. | ✓ | ✓ | Rhaid i benaethiaid canolfannau nodi y dylid ond cofrestru aelodau o staff y ganolfan am gymwysterau yn eu canolfan eu hunain fel y dewis olaf un sydd ar gael mewn achosion lle nad yw'n bosibl i'r aelod o staff y ganolfan ddod o hyd i ganolfan arall. |
| | Unrhyw aelodau o staff y ganolfan sy'n sefyll cymwysterau yn eu canolfan nad ydynt yn cynnwys cydrannau/unedau a asesir yn fewnol | ✓ | × | Cyfrifoldeb pennaeth y ganolfan yw sicrhau bod y protocolau priodol yn eu lle i atal yr aelod o staff y ganolfan rhag cael mynediad at ddeunyddiau arholiadau cyn yr arholiad. Dylai roi gwybod hefyd i aelodau eraill o staff y ganolfan sut i gynnal uniondeb a chyfrinachedd y deunyddiau arholiad. |
| | Unrhyw aelodau o staff y ganolfan sy'n sefyll cymwysterau mewn canolfan arall. | ✓ | × | Rhaid i bennaeth y ganolfan sicrhau bod yr aelod o staff y ganolfan, yn ystod y gyfres arholiadau, yn cael ei drin yn yr un ffordd ag unrhyw ymgeisydd arall ar gyfer yr arholiad hwnnw, ac nad yw'n cael mynediad at ddeunyddiau arholiad nac yn derbyn unrhyw driniaeth ffafriol. |
| Staff Addysgu | Unrhyw aelodau o staff y ganolfan sy'n addysgu ac yn paratoi perthnasau ar gyfer cymwysterau yn eu canolfan eu hunain gan gynnwys cydrannau/unedau a asesir yn fewnol. | ✓ | ✓ | Perthnasau:<br>Aelodau o'r teulu (yn cynnwys llysdeulu, teulu maeth a pherthnasoedd agos tebyg);<br>Ffrindiau agos;<br>Teulu agos ffrindiau agos (e.e. mab/merch). |
| Pennaeth y Ganolfan | Mae gan Bennaeth y Ganolfan berthnasau wedi'u cofrestru ar gyfer arholiadau ac asesiadau yn y ganolfan ei hun. | ✓ | × | |
| | Mae gan Bennaeth y Ganolfan berthnasau wedi'u cofrestru ar gyfer arholiadau ac asesiadau mewn canolfan arall. | ✓ | × | |
| Staff y Swyddfa Arholiadau | Mae gan staff y swyddfa arholiadau berthnasau sy'n cael eu cofrestru ar gyfer arholiadau ac asesiadau yn y ganolfan ei hun. | ✓ | × | |
| | Mae gan staff y swyddfa arholiadau berthnasau sy'n cael eu cofrestru ar gyfer arholiadau ac asesiadau mewn canolfan arall. | ✓ | × | |
| | | ↙ | ↘ | |

## Cofnodion Mewnol Gwrthdaro Buddiannau'r Ganolfan

Cynnwys
Dylech gynnwys manylion am y mesurau a gymerwyd i liniaru unrhyw risg posibl i uniondeb y cymwysterau yr effeithir arnynt.

Pwrpas
Efallai y bydd Arolygydd Canolfannau'r CGC a/neu staff y corff dyfarnu yn gwirio'r cofnodion.
Efallai y gofynnir amdanyn nhw os bydd unrhyw bryderon yn cael eu mynegi i gorff dyfarnu.

Cadw
Rhaid cadw cofnodion tan y bydd y dyddiad cau ar gyfer adolygu'r marcio wedi pasio neu tan y bydd unrhyw apêl, ymholiad am gamymddwyn neu ymholiad arall am ganlyniadau wedi'i gwblhau, pa bynnag un sydd hwyraf.

## Datgan Gwrthdaro Buddiannau Staff y Ganolfan i CBAC

Defnyddiwch y ffurflen electronig i gyflwyno datganiad.

1. Mewngofnodwch i Porth CBAC.

2. O dan "Gweinyddu Canolfannau", dewiswch "Ffurflen Datgan Gwrthdaro Buddiannau Staff y Ganolfan".